Ysgol Gymunedol Peniel

POLISI PLANT MWY ABL A THALENTOG

Rhesymeg:

Dylid annog plant unigol i ddatblygu eu priodoleddau a'u potensial oddi mewn i amgylchedd dysgu sy'n cwmpasu cyfle a darpariaeth gyfartal. Bydd galluoedd a thalentau yn ymddangos mewn ystod eang o bynciau a meysydd: datblygu'r plentyn cyfan sy'n bwysig. Gall ysgolion ac unigolion fynnu mewn diwylliant o uchelgais a dyhead.

Nodau:

- Canfod ein plant mwy abl a thalentog yn gynnar;
- Hyrwyddo hunan-barch y plentyn;
- Cydnabod a diwallu anghenion y plentyn cyfan;
- Mynd i'r afael â sgiliau a thalentau penodol;
- Ehangu cyfleoedd a disgwyliadau trwy ymestyn sgiliau addysgu a dysgu;
- Dathlu datblygiad parhaus yr ysgol fel cymuned sy'n dysgu.
- Cysylltu â rhieni

Diffiniadau:

- ***Mwy Abl a Thalentog*** yw'r term cyffredinol ar gyfer y cysyniad hwn;
- Gall plant fod yn ***fwy abl ac / neu'n fwy talentog*** mewn amrywiol feysydd (academaidd, creadigol, chwaraeon, cymdeithasol, arweiniad);
- Buasai plant ***mwy abl / galluog*** yn dangos gallu uwch na'r cyffredin ar gyfer y dosbarth a buasent yn aml angen tasgau gwahaniaethol a chyfleoedd i ddysgu trwy sialensiau;
- Bydd y plant ***mwyaf galluog*** yn gweithio ar ddwy lefel yn uwch na mwyafrif y plant yn y dosbarth ac weithiau buasai angen darpariaeth ychwanegol a gwahanol arnynt. Buasai CGU yn cefnogi hyn;
- Mae plant ***talentog*** yn amlygu talent neu sgil cynhenid ym meysydd creadigol neu chwaraeon;
- Mae'n bosibl y gall plant mwy galluog a thalentog fod yn "ehedwyr uchel", yn ffri-wilwyr neu'n anniddig.

Strategaethau Canfod:

- Mae ein hysgol wedi mabwysiadu rhestr gyfeirio ar gyfer canfod plant Mwy Abl a Thalentog. Bydd rhestr disgyblion MATh yn deillio o asesiadau athrawon a chanlyniadau profion. Edrychir ar y disgyblion sydd yn gweithio'n gyson ar 1 lefel yn uwch.
- Mae'n rhaid i staff gael dealltwriaeth eglur o'r gwahaniaeth rhwng "mwy/mwyaf abl" a "thalentog";
- Mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein dyfarniadau i blant Mwy Abl a Thalentog yn gyson trwy drafodaeth reolaidd a chymedroli.

Rolau a Chyfrifoldebau:

Athrawon dosbarth:

- Bydd yr athrawon dosbarth yn cysylltu â'r UDRh ynglŷn â chanfod plant mwy abl a thalentog yn ei dd/dosbarth yn gynnar;
- Dylai'r athrawon dosbarth drafod cynllunio ar gyfer y plant mwyaf abl a thalentog gyda'r UDRh er mwyn sicrhau ei fod ef/bod hi yn diwallu eu hanghenion;
- Dylai athrawon dosbarth ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i gwrdd ag anghenion plant mwy abl a thalentog (gweler yr adran ar **Dysgu ac Addysgu** isod);
- Dylai athrawon dosbarth gadw rhieni'n hysbys;
- Dylai athrawon dosbarth gynhyrchu CGU ar gyfer y plant mwyaf abl/talentog sydd angen darpariaeth ychwanegol a gwahanol.

Rhieni / gofalwyr:

- Yr ydym eisiau i'n rhieni / gofalwyr i fod yn ymwybodol ein bod wedi ymrwymo i gwrdd ag anghenion ein holl blant.
- Gwneir rhieni'r plant mwyaf abl a thalentog yn ymwybodol o hyn a rhennir CGU eu plentyn gyda hwy.

Y plentyn:

- Mae'r ysgol yn anelu ar ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol ar gyfer ei holl blant, ac mae hyn yn cynnwys y plentyn mwy abl a thalentog;
- Gofynnir i'r plant mwyaf abl a thalentog gyfrannu at greu ac yna gwerthuso eu CGU.

Llywodraethwyr:

- Bydd y corff llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau fod y polisi yn cael ei weithredu'n llawn;

Cydlynydd yr AALl:

- Bydd Cydlynydd yr AALl yn cynorthwyo ysgolion gyda'u haddysgu hwy o'r plant mwy abl a thalentog;
- Bydd y Cydlynydd yn hwyluso hyfforddiant-mewn-swydd ar gyfer ysgolion a threfnu digwyddiadau arbennig ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog.

Partneriaeth a Chyfathrebu:

- Gosodir pob plentyn mwy abl a thalentog ar gronfa ddata yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn cofrestru'r plant mwyaf abl a thalentog ar gronfa ddata yr AALl.
- Trosglwyddir y wybodaeth hon ymlaen trwy gydol yr ysgol ac ymlaen i'r cyfnod nesaf;
- Bydd athrawon yn cynnal cyswllt â'r UDRh er mwyn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y plant yma;
- Bydd yr ysgol yn rhannu CGU ar gyfer y plant mwyaf abl a thalentog gyda'u rhieni / gofalwyr;
- Lle bo hynny'n angenrheidiol a phriodol bydd yr ysgol yn cysylltu â Chydlynydd yr AALl, darparwyr allanol a chysylltiadau diwydiannol;
- Bydd llyfryn yr ysgol yn cynnwys adran ar ddarpariaeth ar gyfer plant mwy galluog a thalentog.

Trefniant:

- Bydd polisi'r ysgol ar gyfer plant mwy abl a thalentog yn gweithio oddi mewn i fframwaith polisi'r cwricwlwm;
- Bydd athrawon a phlant yn rhannu disgwyliadau ar gyfer gwersi;
- Bydd staff yn gwneud defnydd hyblyg ac effeithlon o adnoddau;
- Bydd athrawon yn defnyddio arddulliau addysgu priodol (gweler yr adran ganlynol) gyda phlant gan werthuso eu deilliannau;
- Bydd athrawon yn defnyddio eu hasesiadau i ddylanwadu ar gynllunio at y dyfodol;
- Bydd gwahaniaethau digonol ar gyfer pob plentyn, gan gynnig sialens digonol i'r plant mwy abl.

Dysgu ac Addysgu:

Dylai strategaethau addysgu a dysgu gynnwys, lle bo hynny'n briodol:

- Gwahaniaethu pwrpasol ar gyfer y 6 maes dysgu a fframweithiau cenedlaethol;
- Amrywio grwpiau i siwtio tasgau;
- Cyfleoedd ymestyn;
- Cyfleoedd dysgu a gychwynnir gan y plentyn;
- Cwestiynau gwahaniaethol gan athrawon;
- Defnydd wedi'i dargedu o gynorthwywyr dosbarth;
- Mabwysiadu dull datrys problemau o fwrw ati;
- Mabwysiadu dull seiliedig ar sgiliau o fwrw ati;
- Ymwybyddiaeth o arddulliau dysgu;
- Tasgau cyfrifoldeb arbennig;
- Ymweliadau gan arbenigwyr;
- Ymgynghori â Chydlynydd yr AALl;

Monitro a Gwerthuso:

- Dylai pob monitro a gwerthuso adlewyrchu gweithdrefnau hunan- arfarnu'r ysgol a'i pholisi monitro a gwerthuso;
- Dylai Cofrestr Plant Mwy Galluog a Thalentog ynghyd â CGU y plant gael eu monitro a'u hadolygu yn rheolaidd gan yr UDRh;
- Dylai plant fod yn ymwybodol o ddata profi a'r broses adolygu CGU er mwyn iddynt fod yn weithredol yn y broses o osod eu targedau dysgu eu hunain;
- Dylai'r UDRh gysylltu yn rheolaidd a'r llywodraethwr/aig sydd â chyfrifoldeb am blant mwy abl a thalentog;
- Bydd y corff llywodraethol yn gwneud sylw yn eu Hadolygiad Blynyddol ar gynnydd a datblygiadau wrth weithredu'r polisi hwn.